**Datganiad ymateb Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion i lythyr adborth terfynol Panel Sicrhau Ansawdd y Swyddfa Gartref, dyddiedig Medi 2023, mewn perthynas ag Adroddiad Adolygiad Lladdiad Domestig (Betty)**

Bydd y datganiad ymateb hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Ceredigion ochr yn ochr â llythyr adborth terfynol Panel Sicrhau Ansawdd y Swyddfa Gartref.

1. **Adborth y Panel:** Paragraff 12.7: 'Roedd angen wedi'i nodi hefyd i bwysleisio nad yw cam-drin domestig yn rhyw benodol…'. Nid yw unrhyw ddiwygiadau wedi cael eu gwneud i egluro'r ffaith bod cam-drin domestig yn drosedd ryweddol. Er bod cam-drin domestig yn effeithio ar bawb, dylid ei ddarllen yn unol â gwybodaeth sy'n seiliedig ar ystadegau. Amcangyfrifodd Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr fod 5.0% o oedolion 16 oed a hŷn wedi profi cam-drin domestig yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym Mawrth 2022; mae hyn yn cyfateb i oddeutu 2.4 miliwn o oedolion (1.7 miliwn o fenywod a 699,000 o ddynion).

   **Ymateb y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol:** Nid yw'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn credu bod y frawddeg a ddyfynnir uchod yn darllen fel pe bai'r Cadeirydd yn diystyru bod cam-drin domestig yn 'drosedd ryweddol', yn wir, nid yw e na'r panel yn meddwl hynny o gwbl. Mae hefyd yn bwysig nodi ei fod yn gysyniad gwahanol i 'ryw benodol'.

2. **Adborth y Panel:** Gofynnwyd i'r adolygiad ychwanegu rhagor o wybodaeth am yr heddlu roedd y Cadeirydd wedi'i gyflogi ganddo a'r dyddiad ymddeol, ac mae hwn bellach yn nodi 'Roedd wedi ymddeol o wasanaeth yr heddlu yn Lloegr yn 2005', ac nid dyma'r lefel o fanylder y gofynnir amdano.

   **Ymateb y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol:** Fel y mae'r adroddiad yn ei amlinellu, cafodd y Cadeirydd ei asesu gan y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a phenderfynwyd bod ganddo'r annibyniaeth, y profiad, a'r sgiliau angenrheidiol i ymgymryd â rôl Cadeirydd y Panel. Fodd bynnag, mae'r adroddiad terfynol wedi cael ei ddiwygio i gynnwys manylion ychwanegol fel y nodwyd yn eich pwynt uchod. Nid yw'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn credu bod angen gwneud ychwanegiadau pellach i'r adroddiad terfynol yn hyn o beth.

3. **Adborth y Panel:** Ychydig iawn o sail resymegol sy'n cael ei darparu ar gyfer yr oedi cyn cychwyn y broses ALID a pham ei bod wedi cymryd 3 blynedd a 5 mis i'w gyflwyno i'r Swyddfa Gartref.

   **Ymateb y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol:** Mae'r adroddiad yn nodi'r amserlenni ar gyfer yr adolygiad hwn. Gohiriwyd cyfarfod cychwynnol y Panel ALID tan Ionawr 2020 oherwydd y broses farnwrol oedd yn digwydd yn dilyn marwolaeth Betty. Fel yr amlinellir yn yr adroddiad, roedd y prif oedi o ganlyniad i Covid-19, fodd bynnag, cafodd cyfathrebu a gohebu rheolaidd ei gynnal gyda'r Tîm Polisi Cam-drin Domestig yn y Swyddfa Gartref i'w hysbysu am gynnydd a'r amserlenni diwygiedig. Cyflwynwyd yr adroddiadau terfynol i'r Swyddfa Gartref ar y 26ain o Dachwedd 2021, felly ni allwn wneud unrhyw sylwadau am yr oedi a ddigwyddodd ar ôl y dyddiad hwn.

4. **Adborth y Panel:** Mae'r sylw sy'n dilyn paragraff 1.10 yn awgrymu bod y "panel adolygu yn awyddus i bwysleisio nad yw'n awgrymu mai Betty oedd ar fai", ond mae paragraff 1.10 yn gwrth-ddweud hyn. Mae paragraff 1.10 yn nodi, "barn y panel ALID yw mai prif achos y ffraeo a'r gwrthdaro rhwng y pâr oedd problemau iechyd meddwl Betty." Gall hyn gael ei weld fel adroddiad sy'n beio dioddefwr a dylid roi sylw i hyn.

   **Ymateb y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol:** Mae'r adroddiad yn nodi'n briodol y ffactorau a achosodd y ffraeo, ond mae'n ofalus i beidio â rhoi bai ar y dioddefwr. Ar ôl ystyried adborth y panel yn ofalus iawn, ni welwn unrhyw ffordd arall o gyfleu hyn, gan gydnabod y gallai'r datganiadau i'w gweld yn groes i'w gilydd. Fodd bynnag, oherwydd y gofal a gymerwyd wrth ddatgan dro ar ôl tro nad Betty oedd ar fai, nid ydym yn cytuno y gallai'r adroddiad gael ei weld fel un sy'n beio'r dioddefwr.

5. **Adborth y Panel:** Mae fel petai llais Betty ar goll yn yr adroddiad sydd i'w weld yn canolbwyntio'n helaeth ar y cyflawnwr. Er bod y panel Sicrhau Ansawdd yn gwerthfawrogi mai ALID oedd hwn, mae'n amlwg bod rhai cyfleoedd dysgu wedi cael eu colli oherwydd absenoldeb unrhyw weithiwr proffesiynol â gwybodaeth arbenigol am glefyd Alzheimer. Mae'r post-mortem yn nodi tystiolaeth o glefyd Alzheimer, a derbynnir nad oedd Betty wedi cael diagnosis clinigol cyn ei marwolaeth, ond mae'n amlwg yn ffactor nad yw i'w weld iddo gael ei archwilio'n fanwl. Cydnabyddir bod yr adroddiad yn cyfeirio at y Gymdeithas Alzheimer, fodd bynnag, gallai archwilio salwch Alzheimer sy'n cyfyngu ar fywyd a chamau tebygol dementia, wedi'i groesgyfeirio ag ynysu cynyddol Betty, y ffaith ei bod hi wedi colli diddordeb mewn siarad â phobl, a'r pylau ymosodol ailadroddus, fod wedi adlewyrchu'n well dirywiad iechyd Betty. Gallai hefyd fod wedi darparu esboniad cryf ar gyfer rhywfaint o ymddygiad Betty ac wedi helpu'r darllenydd i ddeall yr anawsterau y byddai Betty wedi bod yn eu cael gyda'r dirywiad yn ei hiechyd meddwl.

   **Ymateb y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol:** Mae'r adborth ynghylch gwybodaeth arbenigol am glefyd Alzheimer wedi'i nodi. Mae gweddill yr adborth uchod yn ymwneud â'r hyn sydd eisoes wedi'i gynnwys yn yr adroddiad ac a gafodd ei archwilio'n fanwl.

6. **Adborth y Panel:** Paragraff 12.16 – Nid yw'n gyfeiriad digonol at gysylltu i dudalen prosiectau ymchwil Dewis Choice wrth ddyfynnu casgliadau penodol, ac mae meysydd lle mae angen cyfeiriadau ond nid ydynt wedi cael eu darparu, er enghraifft 9.7 (yn enwedig yr honiad y gallai dynion fod yn 'fwy' amharod i adrodd am gamdriniaeth), 9.11, 9.22, 9.25.

   **Ymateb y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol:** Mae pob cyfeiriad a dyfyniad wedi cael eu gwirio i wneud yn siŵr eu bod yn gywir, yn gyson, ac yn gyflawn. O ran yr awgrymiadau eraill a nodir uchod, nid ydynt yn gymesur yn ein barn ni. Mae'r adroddiad wedi'i ysgrifennu mewn arddull sy'n gyson â phrotocolau derbyniol, ac rydym yn hapus gyda'r adroddiad.

7. **Adborth y Panel:** Dylid cynnwys unrhyw gynlluniau ar gyfer digwyddiadau dysgu, cynnwys dysgu mewn hyfforddiant ac ati.

**Ymateb y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol:** Mae'r argymhellion asiantaeth-benodol sy'n cynnwys dysgu a hyfforddiant ac ati i'w gweld ar ddiwedd yr adroddiad. Mae manylion am yr amserlen ar gyfer eu cyflawni a phwy fydd yn gyfrifol am eu gweithredu i'w gweld yn y cynllun gweithredu sy'n cyd-fynd â'r adroddiad.